Diferyn dewisol o Fel

O'R

GRAIG *CRIST*.

NEU

AIR byrr o Gyngor i

SANT a PHECHADUR.

Yn *Saesoneg* gan T. WILCOCS.

Wedi ei gyfieithu o'r 42 Argraphiad: ſe werthwyd o hono yn *Saesoneg* Chwe Ugain Mil.

At ba un y 'chwanegwyd

HYMN am Gariad CRIST.

Newydd gyfieithu o Waith Dr. Watts.

CAERLLEON:

Argraphwyd dros J. Richard, gan T. Huxley, lle gellir cael argraphu pob math o Gopiau ar Bapur a Llythyren dda, am Bris gweddaidd.

PRIS,—Dwy Geiniog.

HYMN

Am anfeidrol Gariad CRIST yn marw dros Bechaduriaid.

Newydd gyfieithu o Waith Dr. WATTS.

I.

CAned yr hen Genhedloedd hwy,
I'w eu *Diana* fawr, neu *Jof*;
Ond Cân ddi dawl neu Fawl tra ſwy',
I neb ond CRIST a'i ras ni roſ.

II.

Pan oedd y *Fagddu* anferth fawr
Am lyngcu ſy Enaid yn ddi ble,
Fel OEN i'w ladd ſe ddaeth i lawr,
Aeth tan Law'r Lleiddiad yn ſy Lle.

III.

Yno trwy Waed o ddwyfol Werth,
Fy Nyled talu yn wir a wnaeth;
Nes oedd Cyfiawnder (ſynder ſerth)
Yn gwaeddi cuwch, *Rbyddhewch y Caeth.*

IV.

Anfeidrol Gariad, graſlawn DDUW,
Pob Clod a Mawl ſo it' byth mwy;
Am Ddoniau'th Ras i Ddynol-ryw,
Trwy'r Ddae'r ſy fawr, a'r Nef ſy fwy.

Llythyr

Llythyr yr Awdwr at y Darllenydd.

Ddarllenydd Criſt'nogol,

GAN fy mod yn profi yn y dydd olaf hwn, nid yn unig cariad yr Arglwydd yn diſgleirio yn ei helydrau hyfryd yn fy nghalon, yn gwreſogi fy ſerchiadau, yn ennyn fy enaid, nid yn unig i roi adſain yſprydol mewn dyledſwydd enaid, i'r cyfryw garwr mawr ag yw fy Iachawdwr, cariad goruwchragorol pa un ſydd uwchlaw gwybodaeth, Epheſ. iii. 12. *Ond hefyd cariad ac ewyllys da i holl nefoedd-anedig blant* Sion. *Canys yr wyf yn cael fod y dydd hwn amryw o eneidiau tlodion yn cael eu taflu yma a thraw, yn barod i gael eu harwain ymaith gyd â phob awel ddyſgeidiaeth trwy gyfrwyſdra dynion, a dichel hudol, trwy ba un y maent yn cynlluyn i dwyllo,* Epheſ. iv. 14. *Fod hefyd gynnifer o gauſeiliau i adeiladu arnynt, trwy ba beth y mae llawer o boen yn myned yn ofer, nad yw dynion yn dywedyd y gwir mewn cariad, nac ychwaith yn cynyddu i fynu ynddo ef ymhob peth, yr hwn yw y pen, ſef* Criſt. *Eph.* iv. 15. *Ni ellir cynnyddu yng* Nghriſt, *heb undeb â* Chriſt; *y mae pa beth bynnag a wnelom heb hynny yn felldigedig: gan hynny yn y byrr draethawd ganlynol hwn, os gwel yr Arglwydd fod yn dda i fendithio y darlleniad o hono i ti, ti gai megis llais diſtaw o'th du ol, yn dywedyd,* Dyma't ffordd, rhodia ynddi, *heb droi ar y llaw ddehau, nac ar yr aſwy. Canys y mae'r ffordd i'r llwybr hyfryd hwnnw o gyfiawnhâd enaid ger bron* Duw, *yn, â thrwy gyfiawnder* Ieſu Griſt. *Gwaith yr un cyfiawn hwnnw yn unig yn marw troſom ni rai anghyfiawn ſydd raid ein dwyn ni at* Dduw; *idde ef, yr hwn nid adnabu bechod gael ei wneud yn bechod*

chad troſom ni, y rhai nid oeddem ddim ond pechod i gael ein gwneud yn gyfiawnder Duw *ynddo ef,* 2 Cor. v. 21.

Ddarllenydd Criſt'nogol, gad i'r hyn oll ag ſydd ynnot o'r hen Adda *i ſyrthio i'r llawr wrth draed* Criſt; *y mae yn rhaid iddo ef yn unig gael y rhagoriaeth: y mae yn rhaid i holl leſtri'r deml newydd yſprydol, newydd-gyfammodol hon, o'r cwppanau mwyaf i'r fflagennau lleiaf i gael eu gofod ar* Grift, *canys efe ſydd i adeiladu teml yr Arglwydd, ac i gael y gogoniant. Efe trwy oſodiad y Tad yw'r garreg ſylfaen, y gongl faen, a'r pen congl faen, efe yw cyflawnder y Tad o ras a gogoniant: pa beth bynnag yw dy eiſiau, ti elli ddyfod atto ef, y mae ynddo ddigonelrwydd o feddiginiaeth i'th wir iachau.*

Ddarllenydd, yr Arglwydd daionus a'th nertho i' brofi'r gair canlynol o gyngor. Duw *a'i gwnelo it' fel mel, yn felus i'th enaid, ac yn iechyd i'th eſgyrn, a'm henaid innau a lawenha gyd â thi.*

Dy Frawd yn y Ffydd a Chymdeithas

yr Efengyl,

THOMAS WILCOCS.

Diferyn

Diferyn dewiſol o Fel O'R GRAIG CRIST.

GAIR o gynghor i'm calon fy hun, ac i'th galon dithau: yr wyt yn broffeſwr, ac yn gyfrannog o bob ordinhadau, da yr wyt yn gwneud, y maent yn freintiau mawrion; ond os nid yw gwaed CRIST gennyt yng waelod dy broffes, hi wiwa, ac ni bydd ond gwiſg amliwiog i fyned ynthi i uffern. Os wyt yn cadw euogrwydd, neu hunan-gyfiawnder tani, fe fwytta'r gwiberod hynny ei holl fywioldeb yn y diwedd. Prawf, a hola gyd â phob manylrwydd bob dydd ar ba ſail y mae'th broffes a'th obaith am ogoniant wedi ei hadeiliadu, a fu llaw CRIST yn ei goſod; os na bu, ni all byth wrthſefyll y demeſtl ddaw yn ei herbyn. Fe taſl Satan hi oll i'r llawr, a mawr fydd y cwymp. *Mat.* vii. 27.

Broffeſwr clodfawr, di gei dy nithio, fe gaiff pob gwythen o'th broffes ei phroſi i'r eithaf: ofnadwy fydd i'r cwbl ſyrthio bendramwnwgl, a chael dim ond proffes yn ſail iddo.

Broffeſwr hededog, edrych at dy adenydd cŵyr mewn pryd, y rhai a dawdd wrth wres profedigaethau. Pa drueni yw, wedi maſnach llawer, torri yn y diwedd, a myned heb ddim, heb un ſylfaen yn dy enaid erbyn tragwyddoldeb.

Broffeſwr doniol, edrych na bo un pryf yn y gwaelod a ddifetho dy holl ddaear dêg, ac a baro

iddi farw o'th amgylch yn nydd y lloſgfeydd. Edrych beunydd dros dy enaid, a gofyn pa le y mae gwaed CRIST i'w weled ar fy enaid i? Pa gyfiawnder ſydd gennyf i ſefyll arno, i gael fy achub trwyddo! A ymadewais a'm holl hunangyfiawnder? Llawer o broffeſwyr gwych a ddaeth wrth weled llwyr ddiniſtr eu dyledſwyddau yn y diwedd i waeddi allan, *Andwyol, andwyol, i bob tragwyddoldeb.*

Gwybydd y gall y pechodau mwyaf fod yn guddiedig tan y dyledſwyddau mwyaf, a'r dychrynfeudd mwyaf. Gwel fod clwyf pechod yn dy enaid wedi ei berffaith iachau a gwaed CRIST; nid wedi ei groeni i fynu a dyledſwyddau, darofftyngiadau, cyrhaeddiadau, &c. Defnyddia'r peth a fynnech heblaw gwaed CRIST ni wna ond gwenwyno'r clwyf. Di gai weled na chafodd pechod erioed ei wir farwhau oni chefaiſt weled CRIST yn gwaedu drofot ar y groes; nid oes dim a'i lladd ond golwg ar gyfiawnder CRIST.

Ni all nattur roi un feddyginiaeth gymmwys ar glwyf enaid. Iachâd oddi wrth ryw ddyledſwydd, ac nid oddi wrth CRIST yw'r cleſyd mwya diobaith; ni all nattur frattiog ynghyd a'i holl gyrhaeddiadau uchaf byth wau gwiſg ddigon pur (ddifrychau) i guddio noethni enaid. Nid oes dim a all wneud hynny yn iawn ond perffaith gyfiawnder CRIST.

Y mae yn rhaid i ba beth bynnag y fydd o weuad nattur i gael ei ddadwau cyn y galler gwiſgo cyfiawnder CRIST. Fe ddaw Satan ag a rwyga ymaith bob cerpyn o waith nattur, gan adael yr enaid yn noeth ac yn agored i ddigofaint Duw. Ni all nattur byth wneud y gronyn lleiaf o ras, ag all farwhau pechod nac edrych yn wyneb CRIST y dydd ſydd i ddyfod

Proffeſwr wyt, yn mynd rhagor, yn gwrando, gweddio a chymmuno; etto ti elli fod yn druenus. Edrych o'th amgylch, a welaiſt ti CRIST erioed yn neilltuol oddi wrth bob arddechawgrwydd

rwydd a chyfiawnder arall yn y byd, a'r cwbl yn fychio i'r llawr, o flaen mawredd ei gariad a'i ras ef. *Eſa.* ii 17.

Os gwir welaiſt ti GRIST erioed, ti welaiſt bur ras, a phur gyfiawnder ynddo, et, ym mhob ffordd yn anfeidrol, ym mhell uwchlaw p b pechod a thrueni! Os gwelaiſt GRIST felly, ti elli ſathru ar holl gyfiawnder dynion ac angylion er dy gymmeradwyaeth gyd a Duw. Os gwelaiſt GRIST, ni wnei un ddyledſwydd hebddo er deng mil o fydoedd. 1 *Cor.* ii. 2 Os gwelaiſt GRIST, ti a'i gwelaiſt yn Graig uwch na'th hunan-gyfiawnder, Satan, a phechod, *Sal.* lxi. 2. Ac y mae'r Graig hon yn dy ddilyn, 1 *Cor.* x. 4. Ac fe fydd dafnau parhaus o fêl a gras yn diferu o honi i'th ddiwallu, *Sal.* lxxxi 16. Ymhola, a welaiſt GRIST erioed megis yr unig-anedig oddi wrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd, *Ioan* i. 14 16, 17. Bydd ſicer it' ddyfod at GRIST, dy fod yn ſefyll ar Graig yr oeſoedd, it' atteb ei alwad i'th enaid, dy fod wedi glynu wrtho am gyfiawnhâd.

Fe chwedleua dynion tra byddont yn galongyfan yn wych iawn am gredu, ychydig ſy'n ei wir ddeall. CRIST yw dirgelwch y Sgrythyrau; gras yw dirgelwch CRIST; credu yw'r peth mwya rhyfedd yn y byd. Dod ryw beth o'th eiddo dy hun atto, a thi anafaiſt y gorchwyl; ac ni wna CRIST gymmaint ag edrych arno yn lle credu. Pan be'ch yn credu ac yn dyfod at GRIST, y mae yn rhaid it' adael dy gyfiawnder dy hunan ar ol, heb ddwyn dim ond dy bechod. (O caled) gadael dy holl ddaioni, ſancteiddrwydd, dyledſwyddau, daroſtyngiadau, &c, ar ol, a dwyn dim gyd â thi ond dy eiſiau a'th drueni; yn amgen nid cymmwys CRIST i ti, na thithau i GRIST; ſe fyn CRIST fod yn hollawl Waredwr a hyfryngwr, a rhaid i tithau fod yn bechadur pur andwyol; neu ni chyttuna CRIST a thi byth. Y gwaith anhawſaf yn y byd yw cymmeryd CRIST yn unig yn gyfiawnder: dyna beth yw ei gydnabod ef yn

GRIST,

Grist. Una ryw beth ag ef o'th eiddo dy hun, ti a'i di-grifti ef.

Pa beth bynnag fo'n dyfod i mewn pan byddoch yn myned at Dduw er cymmeradwyo heb law Crist, galw hwnnw anghrift, par iddo ffoi; gad gyfiawnder Crist yn unig i orfoleddu: *Babilon* yw pob peth arall raid iddi fyrthio, os faif Crist, a thi gei lawenhau yn nydd ei chwymp, *Efa.* i. 10, 11; 12. Crist ei hun a fathrodd y gwinwryf, ag nid oedd neb gyd ag ef, *Efa* lxiii. 3. Os uni ryw beth a Christ, fe fathr Crist ef yn angeidd ei lid, ac fe lychwina ei wifg yn ei waed ef. Yr wyt yn meddwl mai gwaith hawdd yw credu, a brofwyd dy ffydd erioed mewn awr o brofedigaeth, a golwg drwyadl ar bechod? A gafodd erioed ei dodi i ymdrechu a Satan, a digofaint Duw yn gorwedd ar y gydwybod; Pan oeddit yn fafn uffern a'r bedd, ac yna Duw yn dangos Crist i ti yn ymwared, yn gyfiawnder, &c. Pryd hynny gallafit ddywedyd, O mi welaf gyfiawnder o ras yng Nghrist! Ti elli ddywedyd y gair mwyaf yn y byd, dy fod yn credu. Ffydd anfertennol yw ffydd amhrofiadol.

Cyn gwir gredu, rhaid cael gwir argyhoeddiad o bechod, a haeddiant gwaed Crist, ac o ewyllyfgarwch Crist i achub ar yr yftyr hynny yn unig, fef, dy fod yn bechadur; yr hyn fydd yn galettach gwaith na gwneuthur byd. Nid all holl nattur byth gyfodi cuwch mewn temmeftl o bechod ac euogrwydd ag i wir gredu fod un gras, na dim ewyllyfgarwch yng Nghrist i achub. Pan bo Satan yn gofod pechod ar y gydwybod, yna i'r enaid ei ofod ar Grist, dyna ffydd efangylaidd. Dyna beth yw gwneud Crist yn Grist, dyna yw ei fwydd, fef dwyn ymaith bechod. Cymmeryd cyfiawnder Crist yn unig, ei waed yn unig er iechydwriaeth yw fylwedd yr Efengyl. Pan gallo yr enaid ddywedyd ynghanol ei ddyledfwyddau a'i gyfyngderau, dim ond Crist, Crist yn unig, yn gyfiawnder, fanctteiddrwydd,

a

a phrynnedigaeth, 1 *Cor.* i. 30. Nid daroſtyngiadau, dyledſwyddau, graſuſau, *&c.* Y mae'r enaid hwnnw wedi cyrraedd uwchlaw'r tonnau. Mewn hunan-gyfiawnder, a hunan-odidawgrwydd y mae ein holl brofedigaethau, manteiſion Satan, a'n holl achwyniadau yn gorwedd. Y mae Duw yn ymlid y rhai'n trwy oſod Satan arnom, (fel y gwnaeth *Laban* i *Jacob* am ei ddelwau) y mae'n rhaid i'r rhain gael eu rhwygo o di wrthyt, bydd mor anfodlon ag y mynnech, y mae rhai'n yn rhwyſtro CRIST i ddyfod i mewn, ac hyd oni ddelo CRIST i mewn, nid â euogrwydd byth allan; a lle mae euogrwydd y mae calon galedwch: Y mae llawer o euogrwydd yn arwyddo nad oes ond ychydig (neu ddim) o GRIST.

Pan bo euogrwydd yn ymgodi, gochel geiſio dim ond gwaed CRIST yw ddaroſtwng, ni wna pob peth arall ond dy galedu, gwna GRIST yn dangnefedd i ti, *Eph.* ii. 14. Nid dy ddyledſwyddau, dy ddagrau, *&c.* CRIST yn gyfiawnder it', nid dy raſuſau, *&c.* Di elli ddi-ſuddio CRIST i'th enaid, cyſtal trwy ddyledſwyddau, a thrwy bechodau. Edrych ar GRIST, a gwna gymmaint a ſynnech. Goſod dy holl bwys ar gyfiawnder CRIST; gochel bod un droed ar dy gyfiawnder dy hun, a'r llall ar gyfiawnder CRIST. Hyd nes delo CRIST i mewn a goſod i ſynu orſedd gras, ac eiſtedd arni yn y gydwybod, nid oes dim ond euogrwydd, dychrynfeudd, dirgel ddrwg-dybiau, a'r enaid fel yn ymgrogi rhwng gobaith ac ofn, yr hyn ſydd gyfiwr an-efangylaidd iawn.

Y mae'r hwn ſy'n ofni gweled eitha drwg ei bechod ac uffern ei galon, yn drwg-dybio haeddedigaethau IESU GRIST. Pa mor fawr bechadur bynnag wyt, (1 *Ioan* ii. 1,) prawf wneud CRIST yn ddadleuwr it', a thi gei weled mai IESU GRIST y cyfiawn yw. Yn dy holl amheuon, ofnau, temheſtloedd cydwybod, yn waſtadol edrych ar GRIST, na ddadleu a Satan, (ni chais well)

well) par iddo fyned at GRIST, ac efe a'i hettyb; ein Dadleuwr yw wrth ei ſwydd, 1 *Ioan* ii. 1. Ei ſwydd yw atteb y ddeddf, fel ein machniydd, *Heb.* vii. 22. Ei ſwydd yw atteb cyfiawnder fel ein cyfryngwr, *Gal.* iii. 30. 1 *Tim.* ii. 5. Y mae wedi i dyngu i'r ſwyddau hyn, *Heb.* vii. 20, 21. Goſod ef ar waith, os ceiſi wneud rhyw beth dy hun er gwneud iawn am bechod, yr wyt yn ymwrthod â Chriſtiy cyfiawn, yr hwn a wnaed yn bechod droſot, 2 *Cor.* v. 22.

Fe ddichon Satan goffa, a llygru'r Yſgrythyr, ond ni all atteb 'Sgrythyr. Gair holl-awdurdodol Criſt yw, ſe orchfygodd Criſt Satan â hi, *Mat.* iv. 10. Nid oes yn yr holl Yſgrythyr un gair caled yn erbyn pechadur tlawd, wedi dioſg ei hunan-gyfiawnder; nac oes, y mae yn hytrach yn pennodi'r dyn allan fel cywir wrthddrych gras yr Efengyl, ac nid arall. Cred ewyllyſgarwch Criſt, ac ſe wna hynny dithau yn ewyllyſgar. Os wyt yn profi nad elli gredu, cofia mai gwaith Criſt yw gwneud i ti gredu; goſod ef ar waith, y mae yn gweithio i ewyllyſio ac i wneuthur o'i ewyllys da, *Phil.* ii. 13. Gafara am dy anghrediniaeth, yr hyn yw goſod cuogrwydd i fynu yn y gydwybod uwchlaw Criſt, anwerthfawrogi ei haeddedigaethau, cyfrif ei waed yn beth aflan, cyffredin ac anfoddlonawl.

Yr wyt yn achwyn llawer arnat dy hun, a ydyw 'th bechod yn peri it' edrych mwy ar Griſt, a llai arnat dy hun? Os ydyw, iawn yw, yn amgen nid yw dy achwyniad ond rhagrith. Y mae edrych ar ddyledſwyddau, graſuſau, ymhelaethiadau, pan y dylit fod yn edrych ar Griſt yn doſturus iawn. Ni wna edrych arnynt hwy ond dy wneud yn falch, ni wna edrych ar Griſt a'i ras ond dy wneud yn oſtyngedig. *Truy ras yr ydych yn gadwedig*, Eph. ii. 5. Na ddigalonna yn dy holl brofedigaethau, *Iago* i. 2. Fe all y ſtangellau hynny fod (nid i'th dorri) ond i'th ddiſodlu

ddiſodlu oddi arnat dy hun, a'th oſod ar y Graig Criſt.

Di elli gael dy ddwyn yn iſel iawn, hyd ymyl uffern, yn barod i lithro i mewn; ni elli gael dy ddwyn yn îs na bol uffern, (ſe fu llawer Sant cyn hyn yn ymdrechu ag uffern) etto di elli lefain, di elli edrych oddi yno tu a'r deml ſanctaidd, *Jona* ii. 4. I ba deml ni chai neb fyned ond rhai wedi eu puro; a'r rhai hynny nid heb offrwm hefyd, *Act.* xxi. 16. Ond yn awr Criſt yw ein Teml, ein Haberth, ein Hallor a'n Harchoffeiriad ni; i ba un ni faidd neb ddyfod ond pechaduriaid, a hynny heb un offrwm ond gwaed Criſt, yr hwn a offrymmwyd un waith, *Heb.* vii. 27.

Coſia'r holl batrunau gras ſydd yn y nefoedd. Yr wyt yn meddwl y byddit yn arwydd-faen [*monument*] mawr o ras; y mae llawer mil o rai eraill cyſtal ag a elli byth fod.

Nid aeth y pechadur mwyaf erioed tu hwnt i gyrraedd gras Criſt. Na lwfrha; gobeithia yn waſtad, pan y bo'r cymmylau dduaf, edrych tu ag at Griſt, y goloſn fawr o gariad a gras y Tad, wedi ei oſod i fynu yn y nef, fel y gallo pob pechadur edrych tu ag atto yn waſtadol. Pa beth bynnag ſo Satan, neu gydwybod yn ddywedyd, na ddaeth yn dy erbyn dy hun, Criſt ſydd i roddi'r gair diweddaf; efe yw Barnwr byw a meirw; efe raid draethu'r goll-farn olaf: y mae ei waed yn llafaru cymmod, *Col.* i. 20. Glanhad, 1 *Ioan* i. 17. Pwrcas, *Act.* xx. 28, Prynnedigaeth, 1 *Pedr.* i. 19. Puredigaeth, *Heb.* ix. 13. 14. Maddeuant, adn. 22. Rhydd did, *Heb.* x. 19. Cyfiawnhâd. *Rhuf.* v. 9. Agoſhâd at Dduw, *Eph.* ii. 13, Ni chollir diferyn o'r gwaed hwn. Sâf a gwrando pa beth a ddywaid Duw, canys efe a draetha heddwch i'w bobl, na throant mwy at ynfydrwydd, *Sal.* lxxxv. 8. Y mae yn llafaru grâs, trugaredd, a thangnefedd, 2 *Tim.* i. 2. Hynny yw iaith y Tad, a Chriſt. Diſgwyl am ei ymddangoſiad, fel y ſeren forau, *Dat.* xxii. 19.

Fe

Fe ddaw mor ſicr a'r borau, ac mor hyfryd a'r gwlaw boreuol, *Hoſ* vi. 3 Mor hawdd yw attal yr haul rhag cyſodi ag attal Criſt, Haul y cyſiawnder rhag ymddangos, *Mal.* iv. 2. Na thro dy olwg oddi ar Grift un funud. Na edrych ar bechod, edrych ar Grift yn gyntaf; pan y byddech yn galaru am bechod, os nad wyt yn gweled Criſt, ymaith a'th alar, *Zech.* ii. 10. Ym mhob dyledſwydd edrych ar Grift, cyn dyledſwydd, i faddeu, mewn dyledſwydd, i nerthu, wedi dyledſwydd, i gymmeradwyo. Heb hyn nid yw ond dyledſwydd gnawdol, ddiofal. Paid a deddfoli'r Efengyl, fel pe bai un rhan arnat ti i'w wneud a dioddef, a Chriſt ond hanner cyfryngwr: fod yn rhaid i ti ddwyn rhan o'th bechod, a gwneud rhan o fodlondeb. Torred pechod dy galon, ond nid dy obaith yn yr Efengyl.

Edrych yn fwy ar dy gyſiawnhâd nag ar dy ſanctteiddhâd. Yn y gorchymynion mwyaf, edrych ar Grift, nid fel gofynnwr hylym, ond fel dyledwr, ac ymwymwr i weithio. Os edrychaiſt ar dy weithrediadau, dyledſwyddau, cymhwyſiadau, *&c.* yn fwy nag ar haeddedigaethau Criſt, fe fydd prid i ti: Nid rhyfedd dy fod yn myned y gwynfannus. Fe all grafuſau fod yn dyſtion, haeddedigaethau CRIST yn unig, (hebddynt hwy) fy rhaid fod yn fylfaen i adeiladu dy obaith arni, ni all dim ond CRIST yn unig fod yn obaith gogoniant, *Col.* i. 27.

Pan y bo'm yn dyfod at Dduw, ni ddylem ni ddwyn dim ond Criſt yn unig gyd â ni. Fe fydd i un peth o'n heiddo ein hunain fel rhyw rag-gymmwyſiad wenwyno a llygru ffydd. Nid yw'r hwn fy'n adeiladu ar ddyledſwyddau, grafuſau, *&c* yn adnabod haeddedigaethau CRIST. Dyma fy'n gwneud credu mor anhawdd, cymmaint uwchlaw nattur; od wyt yn credu rhaid it' ymwrthod bob dydd (fel tom a ſorod, *Phil.* iii. 7.) a'th ragorfreintiau, dy ufudd dod dy

ſedydd,

ſedydd, dy ſanctteiddhad, dy ddyledſwyddau, dy raſuſau, dy ddagrau, dy doddiadau, dy ddaroſtyngiadau, heb ddim ond CRIST i gael i ddal i fynu; y mae yn rhaid deſtrywio bob dydd dy hunan-weithrediadau a'th hunan-ddigonolrwydd di. Y mae yn rhaid it' gymmeryd y cwbl o law Duw. Rhodd Duw yw CRIST, *Ioan.* iv. 10. Rhodd Duw yw ffydd, *Eph.* ii. 8. Rhad-rodd yw pardwn, *Rhuſ.* v. 16. O, ſel mae nattur yn rhuo, yn ymrwygo, ac yn ymlidio wrth hyn, fod y cwbl o rad-rodd, ac na all bwrcaſu dim a'i holl weithiau, dagrau, a dyledſwyddau; fod pob gweithredoedd wedi eu cau allan, ac yn ddi-bris yn-y nefoedd.

Pe nattur fuaſai yn trefnu ffordd iechydwriaeth, hi fuaſai yn ei goſod yn nwylo ſentiau, neu angylion i'w gwerthu, yn hytrach nag yn llaw CRIST (yr hwn fy'n rhoddi yn rhad) o herwydd pa ham y mae nattur yn ei ddrwgdybio; fe oſodaſai nattur i fynu ffordd i bwrcaſu trwy wneuthur, am hynny y mae yn ffieiddio haeddedigaethau CRIST fel y peth mwya dinyſtriol yn y byd iddi. Fe wna nattur un peth yn y byd i fod yn gadwedig, yn hytrach nâ myned at CRIST, neu ymlynu wrtho; ni fyn CRIST mo hono ef, ſefyll yr enaid a gymmell ryw beth o'i eiddo ei hun ar CRIST. Dyma lle mae'r gwrth-ddadl mawr yn bod. Ymhola, a! welaiſt erioed haeddedigaethau CRIST, yr anfeidrol foddlondeb a wnaeth trwy ei angau? Os gwelaiſt hyn pan oedd llwyth pechod a digofaint Duw yn gorbwyſo ar dy gydwybod; dyna ras. Nid yw mawredd haeddiant CRIST yn cael ei ddatguddio i neb ond i'r enaid clawd y ny cyfyngedr mwyaf. Nid yw ar yhoeddiadau bychain yn goſod ond priſiau bychain ar waed a haeddedigaethau CRIST.

Bechadur diobaith! yr wyt yn edrych ar y llaw ddehau, ac ar yr aſwy, gan dywedyd, *Pwy a ddengys i ni ddaioni?* Yr wyt yn caſglu ynghyd dy ddyledſwyddau a'th arddeliadau i glyttio i fynu gyfiawnder i'th acbub. Edrych yr awr hon ar GRIST. *Edrychwch arno ef holl gyrrau'r ddaear fel y'ch achubwr, Eſa.* x. 22. *Nid oes neb arall, efe yw'r Iachawdwr, ac nid oes neb ond efe,* ad. 21. Edrych lle y mynnech

nech ond atto ef, yr wyt yn andwyol. Ni edrych Duw ar ddim ond CRIST, ac ni raid i tithau edrych ar ddim arall. Y mae CRIST wedi ei dderchafu i fynu i'r uchelder (fel y ſarph bres yn yr anialwch) fel y gallo pechaduriaid o eithafoedd y ddaear, y pellaf, ei weled, ac ed ych arno. Y mae'r olwg leiaf o hono yn gadwedigol; y cyffyrddiad lleiaf yn iachaol i ti; ac y mae Duw am i ti edrych arno, canys efe a'i derchafodd i uchel orſedd gogoniant, mewn golwg amlwg i bob pechadur tlawd. Y mae gennyt reſwm anfeidrol i edrych arno, nid oes un rheſwm oll i edrych oddi wrtho. *Addfwynyw, a goſtyngedig o galon*, Mat. xi. 29. Yr hyn y mae yn ofyn gan ei greaduriaid a wna efe droſtynt, ſef dwyn a dioddef eu gwendidau, *Rhuf.* xv. 1. Nid boddhau ei hun, nid ſefyll ar bygciau'r gyfraith, *adn.* 2. Efe a adfera mewn yſpryd addfwynder, *Gal.* vi. 1. ac fe ddwg dy feichiau, *adn.* 2. Efe a faddeu, nid hyd at ſaith waith, ond hyd ddeng waith a th i-ugain ſaith waith, *Mat.* xviii. 21. Fe wnaeth i ffydd yr Apoſtol gredu hyn, *Luc.* xvii 4, 5. O herwydd bod yn anhawdd gennym ni faddeu, yr ydym yn meddwl bod CRIST felly hefyd.

Yr ydym ni yn gweled pechod yn fawr, yn meddwl fod CRIST felly, gan feſur cariad anfeidrol wrth ein llinyn byrr ni, ei anfeidrol haeddiant ef wrth ein pechodau ni, yr hyn yw'r balchder a'r cabledd mwyaf, *Sal.* ciii. 11, 12. *Eſa* xl 15. Clyw pa beth y mae yn ei ddywedyd, *Mi a gefais iawn*, Job xxxiii. 24. *Ynddo ef y'm llwyr foadlonwyd*, Mat. iii. 17. Nid yn Duw ddim arall; ni wna dim arall ddaioni i ti, neu foddloni dy gydwybod, ond CRIST, yr hwn a foddlonodd y Tad. Y mae Duw yn gwneud oll ar gyfrif CRIST. Uffern, dig faint, a gwrthwodiad yw dy haeddiant di: bywyd, pardwn, a derbyniad yw haeddiant CRIST. Efe a ddengys, nid yn unig i ti y naill, ond efe a rydd i ti y llall. Gogoniant a hyfrydwch Criſt yw maddeu pechod. Yſtyria, pan oedd ar y ddaear, yr oedd yn fwy y mhlith publicanod a phechaduriaid, nag ymhlith Phariſeaid, ei wrth-

wrthwynebwyr proffesol; canys rhai cyfiawn oeddent. Nid yw'r peth fel ag yr wyt ti yn dychymmygu, fod 'ſtat ogoniant Criſt yn ei wneud yn eſgeulus, ac yn ddiyſtyrllyd i bechaduriaid tlodion; nac yw, yr un galon ſy ganddo yn awr yn y nefoedd ag oedd ganddo ar y ddaear; Duw digyfnewid yw: *Oen Duw yw efe ſydd yn tynnu ymaith bechodau yr byd*, Ioan i 29 Efe a aeth trwy dy holl brofedigaethau, cyſtuddiau, gofidiau, wyneb-guddiadau, gwrth-ddywediadau, &c. Mat. iv. 3, i'r 12, a'r 26. Marc xv 24. Luc xxii. 44. Mat. xxvi 38, Fe yfodd chwerwedd y cwppan ei hun, ac a adawodd y meluſder i ti; darfu damnedigaeth, fe yfodd Criſt i fynu holl ddigofaint y Tad ar un llwnge; ac nid oes dim wedi ei adael yn ol, ond iechydwriaeth i ti. Yr wyt yn dywedyd na elli gredu, na elli edifarhau, cymhwyſa ei gyd i Griſt, os nad oes gennyt ddim ond pechod a thrueni, dos at Griſt a'th holl galon-galedwch a'th anghrediniaeth, i gael ffydd ac edifeirwch ganddo ef; y mae hynny yn ardderchog. Dywed wrth Griſt, *Arglwydd, ni ddaeth gennyf un cyfiawnder i'm cyfiawnhau trwyddo, na gras i'm cymmera-wo; yr wyf yn dyfod am dy eiddo di, ac mae yn rhaid im' ei gael gennyt.* Ni a fynnwn ddwyn rhyw beth at Griſt, ond ni chaiff hyn y fod: ni ddarb nir un geiniog o argraph pennaf nattur yn y nefoedd. Ni chyd-ſaif gras a gwrthredoedd, *Tit.* iii. 5 *Rhuf.* xi. 6. Dyma bwngc ofnadwy i nattur, yr hon ni all feddwl am gael ei llwyr ddiofg o'r cwbl, heb adael un cerpyn ar ol o ddyledſwydd, neu gyfiawnder i ed ych arno Hunan-gyfiawnder, a hunan-ddigonedd yw prif deganau nattur, pa rai y mae yn gadw fel ei bywyd; dyna'r peth ſy'n gwneud Criſt yn anferth i nattur; ni all nattur ei chwennych; y mae yn gwbl groes i holl ragorol freintiau nattur. Gadewch i nattur wneud Efengyl, a hi a'i gwna yn gwbl wrthwyneb i Griſt. Hi fydd i'r cyfiawn, y diniwaid a ſanctaidd, &c. Fe wnaeth Criſt Efengyl i ti, hynny yw, i bechaduriaid tlodion, yr annuwiol, yr anghyfiawn, a'r melldigedig. Ni all nattur aros meddwl fod yr Efengyl yn unig i bechaduriaid; hi ddewis yn

hytrach anobeithio nâ myned at Griſt ar fath ammodau ofnadwy. Pan oſodo euogrwydd a digoſaint yn galed ar nattur, y mae yn rhedeg i'w hen rodfeydd o hunan gyſiawnder a hunan-ddaioni, &c. Y mae yn rhaid cael gallu anfeidrol i dorri i lawr y caerau cadarn hyn. Nid yw'r Efengyl yn cau neb allan ond yr hunan-gyſiawnhaol; ſe edrych Criſt ar y pechadur mwya ffiaidd cyn edrycho ar hwnnw; ni all Criſt gael ei wneud yn gyſiawnder iddo ef, nid yw efe ddim pechadur. Hawdd yw dywedyd mewn moeſder, *Pechadur wyf*; ond i weddio mewn gwirionedd gyd a'r *Publican*, *Arglwydd, bydd drugarog wrthyf ſi bechadur*, yw'r weddi galettaf yn y byd. Hawdd yw dywedyd, *Yr wyf yn credu yng Nghriſt*; ond i weled Criſt yn llawn gras a gwirionedd, *o gyſlawnder ta un y gellir derbyn gras am ras*; dyna beth yw dywedyd. Hawdd yw proffeſu Criſt â'r genau; ond y mae ei gyffeſu a'r galon fel *Pedr. (Mai efe yw Criſt, Mab y Duw byw, yr unig Gyfryngwr)* uwchlaw cig a gwaed. A mae llawer yn galw Criſt yn Iachawdwr; ychydig ſy'n ei adnabod fel hyny. Gweled gras ac iechydwriaeth yng Nghriſt yw'r olwg fwyaf yn y byd; ni all neb weled hynny, heb ar yr un pryd weled y gogoniant, a'r iechydwriaeth hynny yn eiddo ei hunan. Y mae golygiadau yn peri cymhwyſiadau. Y mae arnaf gywilydd, ynghanol cymmaint o broffes, ſy mod yn gwybod mor lleied am waed Criſt, yr hwn yw prif ſylwedd yr Efengyl. Proffes ffurfiol, ddi Griſt, yw'r olwg dduaf, neſaf i uffern a all fod. Fe all fod gennyt lawer o bethau da, etto ſe ddichon un peth yn eiſiau dy yrru yn athriſt oddi wrth Griſt. Ni werthaiſt erioed o'r cwbl. Ni ymadewaiſt erioed a'th holl hunan-gyſiawnder, &c. Di elli fod yn uchel mewn dyledſwydd, ac e to yn berffaith elyn, a gwrthwynebwr i Griſt ym mhob gweddi ac ordinhad. Llafuria i'r eithaf am ſanctteiddrwydd, ond na wna Griſt i'th achub o hono; os gwnai, y mae yn rhaid iddo ddyfod i lawr ryw ffordd neu gilydd. Y mae yn rhaid i foddlondeb Criſt, nid dy ſanctteiddrwydd di fod yn gyſiawnhâd it' ger bron Duw. Pan ymddangoſo yr

Arglwydd

Arglwydd yn ofnadwy o'i le ſanctaidd, ſe yſa gyfiawnder dyn fel gwair a ſofl. Hyn yw gwir grefydd, ſylfaenu y cwbl ar y mynyddoedd tragwyddol o gariad a gras Duw yng Nghriſt yn unig; byw yn waſtadol mewn golwg ar gyfiawnder a haeddiant anſeidrol Criſt (y mae'r golygiadau hyn yn ſancteiddio, hebddynt nid yw'r galon ond cnawdol) ac yn y golygiadau hyn i weled cyflawn halogrwydd pechod, o'r cwbl wedi ei ſaddeu; i weddio, i wrando yn y golygiadau hyn, &c. i weled dy hunan yn halogedig; a'th holl gyfiawniadau gweinion yn waſtadol yn gymmeradwy; yn y golygiadau hyn i ſathru ar dy holl hunanogoniant, cyfiawnder, a breintiau, fel peth ffiaidd, a'th gael yn waſtadol yng nghyfiawnder Criſt yn unig; yn gorfoleddu yn ninyſtr dy hunan-gyfiawnder, a difrod dy holl hunan-ardderchawgrwydd, fel y bo i Griſt yn unig fel cyfryngwr i gael ei dderchafu i'w orſedd; yn galaru tros dy holl ddyledſwyddau (pa mor ardderchog bynnag) na's cyflawnaiſt yng olwg, ac mewn profiad o gariad Criſt: heb gariad Criſt ar y gydwybod, nid yw'r cwbl ond gwaſanaeth marw, *Heb.* ix. 14.

Y mae yn hawdd gwrth-brofi yr athrawiaeth honno o ewyllys rhydd (a waeddir cuwch i fynu) trwy'r 'Sgrythur, ac yn y galon, gan bwy bynnag a gafodd un cyfrinach yſprydol a Ieſu Griſt, megis cymhwyſiad o'i haeddedigaethau, ac ymoſtyngiad i'w gyfiawnder. Y mae Criſt yn Berſon rhy ardderchog ym mhob ffordd i nattur dlawd i lynu wrtho, neu i ymaflyd yntho. Y mae Criſt mor anfeidrol ſanctaidd, ni faidd nattur edrych arno; mor anfeidrol dda, na's gall nattur gredu ei fod y cyfryw, pan y bo mewn llawn olwg ar bechod; y mae Criſt yn rhy oruchel a gogoneddus i nattur gymmaint a chyffwrdd ag ef. Y mae yn rhaid dodi nattur ddwyfol yn gyntaf yn yr enaid cyn y cymmero afael ar Griſt, y mae efe yn ſefyll mor anfeidrol bell uwch golwg a chyrraedd nattur arall. Nid yw'r Criſt hwnnw a all ewyllys rhydd nattur ei amgyffred, ond Criſt cnawdol o hunan-wneuthuriad dyn, nid Criſt y Tad, Ieſu

Mab y Duw byw, at ba un ni all neb ddyfod oddi eithr i'r Tad ei dynnu, *Ioan* vi. 44, 46. Yn ddiweddaf, chwilia'r 'Sgythurau beunydd fel mwyn-gloddiau aur, lle mae calon Criſt wedi ei dodi. Gwilia rhag pechodau dy natturiaeth, edrych arnynt yn eu gwir liw, er na thorront byth allan i weithred, cadw dy galon yn waſtad mewn tymmer oſtyngedig, wâg, ddrylliedig, yſtyriol o bob cam ymddygiad yſprydol, dal ſulw ar bob gweithrediadau tuſewnol, addas i'r cyfranniadau uwchaf. Na chadw euogrwydd yn dy gydwybod, ond buan gynliwyſa waed Criſt. Y mae Duw yn goſod pechod ac euogrwydd arnat, er peri it' edrych ar Griſt, y ſarph bres.

Paid a barnu cariad Criſt wrth ragluniaethau, ond wrth addewidion. Bendithia Dduw am yſgwyd gau ſylfeini ymaith, am ryw ffordd i gadw dy enaid yn ddeffrous, ac i edrych ar Griſt. Gwell clefydau, profedigaethau, na ſyrthni ac anyſtyriaeth.

Fe dry yſpryd anyſtyriol yn yſpryd halogedig, i beehu ac i weddio hefyd. Anyſtyriaeth yw gwenwyn proffes, oni ddiwreiddi o'r galon trwy ddyfal a difrifol faſnachu, yn ymgraffu ar Griſt mewn dyledſwyddau; ſe dyf yn fwy cadarn ac yn fwy marwol trwy fod tan ordinhadau eglwyſig. Na feſur dy raſuſau wrth dy gyrhaeddiadau eraill, ond wrth briſiadau 'ſrgythurol. Bydd ddifrifol, a menwl mewn dyledſwydd, boed ei bwys ar dy galon; ond gwilia rhag cymmeryd cyſur oddi wrth ddyledſwyddau mwy nag oddi wrth bechodau. Y mae cyſur o un llaw, ond llaw Criſt yn farwol. Bydd ddyfal mewn gweddi, os amgen, ni chedwi byth i fynu gymmundeb â Duw. Fel ag yr wyt mewn yſtafell-weddi, felly yr wyt ym mhob ordinhâd arall.

Na chyfrif ddyledſwyddau wrth eiriau mawrion, ond wrth dymmerau iſel a golygiadau ar Griſt. Dirofna ddyledſwyddau a doniau. Cyffes ſant mawr oedd, *Ei fod yn ofni ei ddyledſwyddau yn fwy na'i bechodau.* Yr oedd un yn ei wneud yn fynych yn falch, a'r llall yn waſtad yn oſtyngedig. Tryſora i fynu ymddangoſiadau o gariad Criſt, y maent yn

gwneud

gwneud y galon yn iſel i Griſt, yn rhy uchel i bechod. Paid a diyſtyru y tyſt lleiaf a gwaelaf o ras; fe all Duw dy ddodi i wneud defnydd o'r lleiaf yn dy feddwl; fe ddichon hwnnw (1 *Ioan* iii. 14.) fod cyttal a mil o fydoedd i ti.

Bydd gywir i'r gwirionedd, nid yn gynhenllyd ac yn ddiyſtyrllyd: adfera y rhai ſydd wedi ſyrthio, nertha hwy i ſynu dracheſn yn ymyſgaroedd Criſt. Cyweiria yr eſgyrn drylliedig â gras yr Ffengyl.

Broffeſwr uchel-drem! na ddirmyga'r Sant lgwannaf; di elli ddyfod i ddymuno bod yng nghyflwr y gwaelaf o honynt. Bydd ffyddlon i wendidau eraill, ac yn yſtyriol o'th rai dy hun. Mynych ymwel â'r clâfwelyau, a'r eneidiau ſy' wedi myned i dywyllwch, y maent yn yſgolheigion gwych mewn profiad.

Aros yn dy alwedigaeth, bydd ufudd i bob perthynaſau fel i'r Arglwydd. Bydd foddlon i ychydig o'r byd, ychydig wna'r tro. Na feddwl ond ychydig am y ddaear, gan nad yw deilwng o'r lleiaf. Meddwl yn fawr am y nefoedd, nid yn rhy fychan, gan fod Criſt mor gyfoethog a rhydd. Meddwl fod pob un yn well nâ thi dy hun. Dwg hunan-ffieiddiaidd yn waſtad gyd â thi, fel un cymmwys i'w ſathru tan draed gan bawb o'r Saint. Gwel wagedd y byd, a'r darfodedigaeth ſydd ar bob peth; na châr ddim ond Criſt. Galara fod mor lleied o hono yn y byd, mor lleied yn gweled ei eiſiau, gwageddau yn eu boddloni yn well. Nid yw Criſt ond fel hen chwedl i enaid difraw, yr Yſgrythurau ond hanes. Galara feddwl fod cymmaint tan fedydd, a dyſgyblaeth eglwyſig, nad ydynt tan ras; yn edrych cymmaint ar ol dyledſwydd, ufudd-dod, ychydig ar ol Criſt, ychydig o ddyſg mewn gras. Ymbarattoa i'r groes, croeſawa, dwg yn orfoleddus fel *croes* Criſt, pa un ai gwradwyddiadau, diyſtyrwch, cellwair, dirmyg, carcharau, *&c.* ond gwel mai *croes* Criſt yw, nid dy *groes* dy hun.

Fe luddiais pechod rhag gorfoleddu yng *nghroes* Criſt, fe all gwneud pechodau bychain yn erbyn goleuni bychain fagu uffern yn y gydwybod cyffal a'r pechodau mwyaf yn erbyn goleuni mawr. Os cyfod-

wyd

wyd di o fol uffern i fynwes Criſt, a'th oſod i eiſtedd ym myſg pendefigion yn nheulu Duw. O pa fodd y dylit fyw fel patrwm o drugaredd; dy enaid wedi ei waredu a'i adferu! Pa anfeidrol ddyled ſydd arnat i Grift! Gyd â pha dymmerau neilltuol y dylit rodio, a gwneud pob dyledſwydd! Pa ddyddiau o foliannu, a chanu *Haleluia* y dylai'r ſabbathau fod i ti? Pa nefoedd y dylai cymdeithas eglwyſig, cymmundeb â Chriſt, angylion, a ſeintiau fod i ti! Pa foddi enaid mewn cariad tragwyddol, fel claddedigaeth gyd â Chriſt, yn marw i bob peth ond efe. Bob amſer meddyliecht am Grift, ſynna a rhyfedda; pan y gwelecht bechod, edrych ar ras Criſt wedi ei faddeu it'; pan byddech yn falch edrych ar ras Criſt, fe ddaroſtwng ac fe dery hynny di i lawr i'r llwch

Cofia amſer cariad Criſt attat, pan oeddit yn noeth, *Ezec.* xvi. 8, 9 a thyna'r pryd y'th ddewiſodd. A elli roeſawi meddwl balch byth mwy? Cofia, breichiau pwy a'th gynhaliodd rhag ſuddo, ac a'th waredodd o uffern iſaf, *Sal.* lxxxvi. 13. Bloeddia yng nghluſtiau angylion a dynion, *Sal.* cxlviii. Cân yn dragywydd, Moliant, moliant, gras, gras. Edifarha a gweddia bob dydd; rhodia yng olwg gras, fel un ag enneiniadau gras arno. Cofia dy bechodau dy hun, a phardyniadau Criſt; dy anheilyngdod di, haeddedigaethau Criſt; dy anallu di, gallu Criſt; dy falchder di, goſtyngeiddrwydd Criſt; dy aml wendidau di, adferiadau Criſt; dy euogrwydd di, cymhwyſiadau newyddion gwaed Criſt; dy lithriadau di, cyfodiadau Criſt i fynu; dy eiſiau di, cyflawnder Criſt; dy broſedigaethau di, tiriondeb Criſt; dy aflendid di, cyfiawnder Criſt.

O wynfydedig enaid! yr hwn a gaffo Criſt heb ei gyfiawnder ei hun am dano, ond wedi golchi a channu ei wiſg yng waed yr Oen. Oh broffeſwr greſynus truenus, nad yw'r Efengyl o'i lewn Na orphwys ar brofiadau eglwyſig; di elli fyned trwy y rhei'ny, a chael dy dafiu ymmaith yn nydd profiad Criſt: Di elli ddyfod i'r i'r bedydd, heb ddyfod byth at Grift, a gwaed y taenelliad, *Heb.* xii. 24. Pa gymmaint bynnag y mae enaid yn dyfod yn fyr o

effeithiau, a chymhwyſiadau gwaed, haeddiant, a chyfiawnder Criſt, (prif wrthddrych yr Efengyl) cymmaint a hynny y mae yr enaid yn cael ei adael mewn cyflwr o amheuaeth, &c. Ac fe fydd i amheuaeth, (oni ragflaenir mewn pryd) droi yn yſpryd o anyſtyriaeth, un o'r tymmherau emb ttaf. Na chwareu ag ordinhadau. Bydd ddiwyd mewn myfyrdod a gweddi. Diſgwyl yn ddyfal am bob odfa i wrando'r gair. Y mae arnom eiſiau athrawiaeth, cerydd, cyngor, cyſur, fel ag y mae eiſiau'r gwlaw, y gwlith, y cafodydd mân, ar y gwellt a llyſiau'r maes, *Deut.* xxxii. 2. Gwna'r hyn oll a wnelech o waith enaid fel gwaith Criſt, *Zec.* vii. 5, 6. fel un yn maſnach yn ddigyfrwng a Ieſu Griſt, fel pe b'ai efe yn edrych arnat ti, a thithau arno yntef, a chyrraedd dy holl nerth oddi wrtho.

Dal ſulw pa gynhyrfiadau ſanctaidd wyt yn gael yn dy enaid i ddyledſwyddau: mawr-brifia'r meddwl da lleiaf ſydd gennyt am Griſt, y gair da lleiaf wyt yn llafaru am dano mewn gwirioneedd o'r galon, y mae yn drugaredd fawr. O bendithia Dduw am dano! Dal ſulw, os bydd y dydd yn gwawrio arnat yn feunyddiol oddi uchod, yn ymweled â thi yn waſtadol, â boreuol wlith o alar am bechod, *Luc* i. 17. Edrych ar fod y ſeren foreu eglur, a dylanwadau newydd o ras a heddwch yn cyfodi arnat yn waſtadol, *Dat.* xxii. 16. a Chriſt yn hyfryd gyfarch dy enaid ym mhob dyledſwydd. Y ddyledſwydd nad yw'n gwneud yn fwy yſprydol, y mae'n gwneud yn fwy cnawdol; nad yw yn bywhau ac yn daroſtwng, y mae yn marwhau ac yn caledu. Fe all *Sudaas* gael y tammaid, y fraint allanol o fedydd, ſwpper cymdeithas eglwyſig, &c. ond *Ioan* orweddodd ar fynwes Criſt, *Ioan* xiiii. 23. Dyma'r dull efangylaidd ym mha un y dylem ninnau weddio, gwrando, a chyflawni pob dyledſwydd. Nid oes dim a dawdd galon-galedwch i beri i ddyn rwydd alaru am bechod, ond gorwedd yn y fynwes honno. Nid oes dim arall all wella anyſtyriaeth,

a diſtrawder cyffredinol yſpryd (cancr proffes) a'i wneud yn wir oſtyngedig, ac yn ufudd i Griſt. Fe wna hynny bechod yn ffiaidd i'r enaid; ie, fe draws ffurfia'r darn dugaſaf o uffern i ogoniant Criſt. Na feddwl dy fod yn iawn fel y dylit fod, dy fod yn Griſtion o ryw gyrhaeddiad, nes delych i hyn, yn waſtad yn gweled, ac yn profi dy hun yn gorwedd ym mynwes Criſt, yr hwn ſydd ym mynwes y Tad, *Ioa* i 18. Tyred, ac annog y Tad i roi golygiadau o Griſt i ti, ti fyddi ſiccr o dyccio; ni elli byth ddyfod ag un deiſyfiad a'i bodlono yn well; cfe a'i rhoddodd allan o'i fynwes i'r diben hynny yn unig, ſef i'w ddal i fynu o flaen llygaid pob pechadur, fel yr arwyddfaen mawr tragwyddol o gariad y Tad.

Y mae ſyllu ar yr haul naturiol yn gwanhau llygaid. Pa fwyaf edrychir ar Griſt, Haul y cyfiawnder, eryfach ac eglurach fydd llygad ffydd. Edrych ar Griſt, nid elli lai na'i garu, a byw iddo. Meddwl am dano yn waſtadol; cadw dy olwg yn waſtadol ar waed Criſt; yn amgen fe ſigla pob awel profedigaeth dydi. Os wyt am weled pechadurufrwydd pechod i'w ffieiddio, a galaru o'i herwydd, na ſaf i edrych ar bechod, ond edrych ar Griſt yn gyntaf yn dioddef, ac yn gwneud iawn. Os wyt am weled dy raſuſau a'th ſancteiddrwydd, na aros i ſyllu arnynt, ond edrych ar gyfiawnder Criſt yn y lle cyntaf; (gwel y Mab, a'thi a weli'r ewbl) edrych ar dy raſuſau yn yr ail le.

Pan byddech yn gweithredu ffydd, ar ba beth yr wyt yn edrych gyntaf, gan ddiſgwyl ſefydliad oddi wrtho, a ſylfaenu dy obaith arno. Dos at Griſt yngolwg dy bechod a'th drueni, nid dy ras a'th ſancteiddrwydd. Na faſnach ddim a'th ſancteiddrwydd (ni wna ond llen guddio Criſt) ne's gwelech Griſt yn gyntaf. Y mae'r hwn ſy'n edrych ar Griſt trwy ei raſuſau fel un yn edrych ar yr haul mewn dwfr, yr hon debygai ſy'n chwareu, ac yn ymſymmud fel y dwfr. Edrych ar Griſt yn unig yn diſgleirio yn ffurfafen gras a chariad y Tad, ni weli

ddim

ddim o hono ef ond yn ei ogoniant ei hun, yr hwn ſydd yn anrhaethadwy. Fe ddod balchder ac anghrediniaeth chwi iedrych ar ryw beth ynnoch eich hunain yn gyntaf; ond ni faſnach ffydd â neb ond Criſt, yr hwn ſy'n anrhaethawl ogoneddus, ac y mae yn rhaid iddo lyngcu i ſynu dy ſanctteiddrwydd yn gyſtal a'th bechod; canys efe a wnaed gan Dduw yn bob un o'r ddau i ni, rhaid i ninnau ei gymmeryd yn bob un o'r ddau, 1 *Cor.* i. 30. 2 *Cor.* v. 21. Y mae'r hwn ſy'n goſod i ſynu ei ſanctteiddrwydd i edrych arno, i'w gyſuro, yn goſod i ſynu'r eulun mwyaf, yr hon a gryfha ei amheuon a'i ofnau. Tro dy olwg unwaith oddi ar Griſt, ac yn fuan (fel *Pedr*) ti ſuddi i amheuon.

Nid oes diffyg cyſur byth ar Griſtion, ond pan y bo yn myned oddi ar lwybr a threfn yr Efengyl, gan edrych arno ei hun, troi ei olwg oddi ar berffaith gyfiawnder Criſt; yr hyn yw dewis yn hytrach i fyw wrth oleuni canwyll, nâ goleuni'r haul. Fe dry'r mêl wyt yn ſugno o'th hunan gyfiawnder yn fuſtl perffaith, a'r goleuni wyt yn gymmeryd i rodio ynddo yn nos du ar dy enaid. Y mae Satan yn dy demtio, gan dy ddodi i ymbalfalu ynghylch dy ras, i gael cyſur oddi wrtho; pan y mae'r Tad yn dyfod, y mae yn dy gyfeirio at ras Criſt, (tra chyfoethog a gogoneddus, yn ei anfeidrol foddioni ef) yn gorchymmyn i ti ddwys fyfyrio ar gyfiawnder Criſt; (y mae ei orchymmynion ef yn gynnorthwyon) dyna annogaeth hyfryd, a lleferydd felus i geryddu anghrediniaeth; dilyn yr arwydd leiaf, ymlyn wrtho i weddio llawer, priſia weddi fel tlws tra gwerthfawr; ernes yw o fod mwy i ddyfod.

Os wyt yn ceiſio gweddio, ac yn methu, o herwydd hynny yn digalonni, gwel Criſt yn gweddio droſot, defnyddia ei anrhydedd ef gyd a'r Tad droſot. Pa beth all fod yn eiſiau arnat, *Ioan* xiv, 17. a'r bennod xvii. A ydwyt yn drallodedig, gwel Griſt dy dangnefedd, *Eph* ii. 14. Efe aeawodd dangnefedd i ti, pan eſgynnodd i'r nef, gan orchym-

myn

myn drachefn a thrachefn i ti beidio ac ymdrallodi yn yr hyn lleiaf (trallodi yn bechadurus) fel i attal dy gyſur, neu dy grediniaeth, *Ioan.* xiv. 1, 17. Y mae efe yn awr ar ei orſedd, wedi 'ſpeilio ar y groes' yn y man iſaf o'i ddaroſtyngiad, y cwbl a allaſai dy newidio neu'th drallodi; ere a ddygodd dy bechodau, gofidiau, trallodau, profedigaethau, &c. ac y mae wedi myned o'r blaen i barattoi lle i ti.

Tydi yr hwn a welaiſt Griſt yn bob peth, a thydi dy hunan yn gwbl ddim, yr hwn wyt yn gwneud Criſt yn hollawl fywyd it' wedi marw i bob cyſiawnder arall; tydi yw'r Criſtion, un a garwyd yn oruchel, a gatodd fiarr gyd â Duw, un o garedigion y nefoedd. Gwna un ffafr i Griſt, am ei holl gariad i ti, câr ei holl Seintiau a'i eglwyſi tlodion, y gwaelaf, y gwannaf, er bod rhyw wahaniaeth barn, y maent wedi eu cerfio ar ei galon ef, fel enwau meibion *Iſrael* ar ddwyfronneg *Aaron*, byddent felly ar dy galon dithau: - *Gweddia am heddwch* Jeruſalem, *llwydded y rhai a'i hoffo*, Sal. cxxii. 6.

DIWEDD.